| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd/ Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol a Chamau Gweithredu Sir Ddinbych yn sgil Llifogydd Tachwedd 2012** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Gohiriodd y Cyngor yr ymgynghoriad cyhoeddus y bwriedid ei gynnal ar Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol Sir Ddinbych er mwyn gallu pwyso a mesur canfyddiadau'r ymchwiliad i Lifogydd Tachwedd 2012. Mae'r Strategaeth ddrafft bellach wedi ei chwblhau. Hefyd, mae nifer o'r argymhellion a oedd yn yr adroddiadau ymchwilio i lifogydd wedi eu gweithredu neu'n parhau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ddrafft i'r Pwyllgor ei hystyried cyn ymgynghori'n gyhoeddus arni a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn ag ymateb y Cyngor ac eraill i argymhellion yr adroddiadau ymchwilio i lifogydd Tachwedd 2012.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir y dylai'r pwyllgor:

- Ystyried a chynnig sylwadau am y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol a chefnogi'r cynnig i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad cyhoeddus (Mae rhestr o'r ymgyngoreion a dargedir yn Atodiad 1).
- Nodi a chynnig sylwadau ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor ac eraill mewn ymateb i argymhellion yr adroddiadau ymchwilio i lifogydd Tachwedd 2012.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

### 4.1 Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ddrafft

Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, ddatblygu, cynnal, gweithredu a monitro Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol. Yn Nhachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Cymru a oedd yn awgrymu y dylai

Strategaethau Rheoli Risg Llifogydd Lleol fod yn eu lle erbyn 31 Mawrth 2013. Roedd y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn nes i'r llifogydd effeithio ar y sir yn Nhachwedd 2012. Mae cynnig i ohirio'r broses o gwblhau'r Strategaeth nes bod yr ymchwiliad i'r llifogydd wedi dod i gasgliad ac wedi ei adrodd i Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi dull y Cyngor. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 25 Ebrill 2013 y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus angenrheidiol yn dechrau ym Medi 2013. Mae'r ffaith bod y cyfnod sydd ei angen i gwblhau'r ymchwiliad i'r llifogydd yng Nglasdir, Rhuthun wedi ei ymestyn, yn golygu bod yr ymgynghoriad wedi ei ddal yn ôl.

Yn sgil canfyddiadau'r ymchwiliad i'r llifogydd, mae'r Amcanion yn y Strategaeth ddrafft wedi eu hadolygu a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

1) **Gwella dealltwriaeth y Cyngor o risg llifogydd lleol.**

   Tra bod effaith fwyaf y llifogydd yn Nhachwedd 2012 yn deillio o'r ffaith bod prif afon wedi gorlifo, roedd y digwyddiad yn ein hatgoffa'n amserol ei fod yn bwysig i'r Cyngor wella ei ddealltwriaeth o risg llifogydd.

2) **Sicrhau bod cymunedau lleol yn deall eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg llifogydd lleol.**

   Yn sgil llifogydd Tachwedd 2012 rhoddwyd ffocws ar y rôl bwysig sydd gan berchnogion tir ar y glannau, yn ogystal ag awdurdodau rheoli risg llifogydd, i'w chwarae mewn cynnal cyrsiau dŵr i leihau risg llifogydd. Mae pwysigrwydd Cynlluniau Llifogydd Cymunedol o safbwynt helpu cymunedau i baratoi tuag at lifogydd a allai ddigwydd, yn amlwg iawn.

3) **Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill a budd-ddeiliaid.**

   Ers y llifogydd, mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan adeiladu ar y berthynas waith bresennol i ymchwilio i achosion llifogydd a datblygu dull ar y cyd i leihau risg llifogydd yn y dyfodol.

4) **Mynd ati'n weithgar i reoli risg llifogydd sy'n gysylltiedig â chynigion ar gyfer datblygiadau newydd.**

   Mae canfyddiadau'r adroddiad annibynnol i'r llifogydd yng Nglasdir yn ein hatgoffa o bwysigrwydd cael polisïau a phrosesau clir i reoli risg llifogydd mewn datblygiadau newydd.

5) **Annog dulliau rhagweithiol, cyfrifol o gynnal amddiffynfeydd llifogydd ac asedau draenio mewn eiddo preifat.**

   Bu llifogydd ar sawl lleoliad ledled Sir Ddinbych yn Nhachwedd 2012 o ganlyniad uniongyrchol i gylfatiau wedi blocio a oedd yn eiddo preifat.

6) **Ymchwilio i gyfleoedd i leihau dŵr wyneb sy'n llifo o'r dalgylchoedd uchaf a storio llifogydd yn y gorlifdiroedd.**

Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed ynglŷn â llifogydd yn Llanelwy a Gellifor, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor yn edrych ar ddulliau i leihau effeithiau dŵr wyneb sy'n llifo trwy ddal y llif yn ôl yn y dalgylchoedd uchaf.

7) **Nodi prosiectau rheoli risg llifogydd fforddiadwy a chynaliadwy.**

Gyda phwysau ychwanegol ar arian cyhoeddus, bydd galw cynyddol am gyfraniadau preifat a gan y gymuned tuag at gost cynlluniau rheoli risg llifogydd. Mae'n debygol y bydd y gwelliannau sy'n cael eu hargymell i fwnd amddiffynfa llifogydd Glasdir yn cael eu hariannu'n rhannol ag arian preifat.

8) **Sicrhau bod gwybodaeth am Reoli Risg Llifogydd lleol yn gyson â gweithdrefnau cynllunio rhag argyfwng y Cyngor.**

Mae Uned Cynllunio rhag Argyfwng y Cyngor yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith a wneir ar y cyd rhwng y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu a gwella cynlluniau ymateb i lifogydd ac adfer trwy'r sir.

**4.2 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Argymhellion yr Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd Tachwedd 2012**

Gweler Atodiad 2.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae llifogydd yn gallu tarfu'n ddifrifol ac am gyfnod hir ar y cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Mae deall a rheoli risg llifogydd yn cefnogi blaenoriaeth y Cyngor i ddatblygu'r economi lleol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n anodd pennu cost cyflawni'r amcanion a'r mesurau sydd yn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol. Mae'n anochel y bydd angen buddsoddi mewn adnoddau dynol i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n briodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn debygol o gael arbedion o ganlyniad i leihau effaith llifogydd trwy reoli risg llifogydd yn fwy effeithiol.

Disgwylir y bydd cost gweithredu'r argymhelliad i gynyddu uchder y bwnd presennol yn ystâd Glasdir rhwng £250k a £350k. Rhagwelir y rhennir y gost yn gyfartal gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru a Taylor Wimpey.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad?**

Trwy wella ei ddealltwriaeth o risg llifogydd lleol, bydd y Cyngor wedi ei baratoi'n well i reoli risg llifogydd a lleihau'r effaith ar grwpiau bregus.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae Cyngor wedi ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad gynt) yn ogystal ag adrannau mewnol, a bydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ddrafft.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Gelir cynnwys oblygiadau ariannol yr adroddiad yng nghyllideb bresennol y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae gan y Cyngor ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol o dan y Rheoliadau Risg Llifogydd a’r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Bydd methu â chyflawni'r rhain yn gwneud drwg i enw da’r Cyngor a gallai arwain at dynnu’n ôl arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol yn y dyfodol.

## 11. Y Grym i wneud Penderfyniad

Rheoliadau Risg Llifogydd (1999), Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010).

Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn rhoi grym i'r pwyllgor o safbwynt datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd
Rhif ffôn: 07776 161612